# Cludiant actif

| | |
|---|---|
| JAMILA | Parti gwych ond be' wnawn ni 'da'r holl losin 'ma? |
| MEGAN | Dw i'n llawn dop! |
| JAMILA | Un bach arall? |
| MEGAN | Pam lai? |
| JAMILA | O, wy'n meddwl m'od i angen tacsi neu graen i fynd â fi adre. Unrhyw fath o gludiant! |
| ALFRED | Soniodd rhywun am 'gludiant'? |
| JAMILA | Plîs, gad hi am heddi Alfred... |
| ALFRED | Ond Jamila, mae'n digwydd drwy'r amser, gan gynnwys heddiw a nawr. Proses fiolegol yw cludiant actif, sy'n golygu bod moleciwlau'n pasio trwy gellbilen i gell sy'n llawn moleciwlau.<br><br>Mae cludiant actif yn ymwneud â chrynodiadau o foleciwlau - o grynodiad isel o foleciwlau i grynodiad uchel.<br><br>Fel y gweli di, mae 'na lawer mwy o foleciwlau tu fewn i'r celloedd nag sy' tu fas. Pan mae moleciwl yn symud mewn i gell sydd â chrynodiad uchel o foleciwlau, mae'r gronyn yn mynd yn erbyn graddiant y crynodiad. |
| JAMILA | Alfred paid. Alwn ni ddim bwyta mwy o siocled. |
| ALFRED | Megan, ti'n cofio'r bar siocled ola' 'na? Gymerodd lawer o egni i'w fwyta, i'r siocled meddal melys wasgu ei hun i dy stumog lawn.<br><br>I symud moleciwlau o ardal o grynodiad isel i ardal o grynodiad uchel, rhaid cael egni. Dyna beth yw cludiant actif. |


© Hawlfraint BBC

Bitesize

MEGAN Dw i’n mynd i fod yn sâl!

ALFRED Chwilio am gwmni glanhau carped.


© Hawlfraint BBC